# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Agenda (SLC (3)-02-08)

**Dyddiad: 29 Ionawr 2008**
**Amser : 8.15am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**
**Eitem 2: Offerynnau ac offerynnau drafft na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2.**
**Eitem 2.1: Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)**

**SLC93 - Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Nodi Ffynonellau Sŵn) (Cymru) 2007** Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 13 Rhagfyr 2007. Fe'u gosodwyd ar 17 Rhagfyr 2007. Yn dod i rym ar 9 Ionawr 2008. - nodi'r ffynonellau sŵn y mae'n rhaid eu mapio yn unol â pharagraff cyntaf Erthygl 7 o Gyfarwyddeb y Comisiwn 2002/48 ynghylch asesu a thrafod sŵn amgylcheddol. Y ffynonellau sŵn penodol a nodwyd yw'r rhai hynny a nodwyd i ddiben rheoliad 3(1) Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006 sef crynodrefi cylch cyntaf (poblogaeth o fwy na 250,000 person a dwysedd poblogaeth sy'n cyfateb i 300 o bobl i bob cilomedr sgwâr neu fwy na hynny), prif ffyrdd cylch cyntaf, cefnffyrdd, traffyrdd nad ydynt yn gefnffyrdd, prif ffyrdd neu ffyrdd dosbarthiadol gyda mwy na chwe miliwn o gerbydau yn teithio arnynt bob blwyddyn neu sy'n rhanbarthol, yn genedlaethol neu'n rhyngwladol) a phrif reilffyrdd cylch cyntaf sydd â mwy na 60,000 o drenau yn teithio arnynt bob blwyddyn). **SLC99 - Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) 2008** Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 8 Ionawr 2008. Fe'u gosodwyd ar 10 Ionawr 2008. Yn dod i rym ar 1 Chwefror 2008. - yn nodi'r meini prawf cymhwystra am grantiau ar gyfer myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau dynodedig yng Nghanolfan Bologna, Coleg Ewrop neu'r Athrofa Brifysgol Ewropeaidd mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2008. I'r graddau nad yw Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) 2007 ("Rheoliadau 2007") heb eu dirymu gan y Rheoliadau hyn, maent yn cywiro camgymeriadau drafftio a nodwyd yn Rheoliadau 2007 (mae SLC 24 - y cyflwynwyd adroddiad arno ar 2 Hydref 2007 - yn cyfeirio atynt). **SLC100 - Rheoliadau Defnyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cyffyrddiad â Bwyd (Gasgedi mewn Caeadau) (Cymru) 2008** Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 14 Ionawr 2008. Fe'u gosodwyd ar 16 Ionawr 2008. Yn dod i rym ar 8 Chwefror 2008. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 372/2007.
**Eitem 3: Offerynnau y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i dalu sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.3**
**Eitem 3.1: Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol) SLC93 - Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Nodi Ffynonellau Sŵn) (Cymru) 2007** "- fel uchod"

### Eitem 4: Gohebiaeth y Pwyllgor

Ymateb Carwyn Jones AC, y Cwnsler Cyffredinol, i'r llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth mewn perthynas â'r amserlen a awgrymir yn y derminoleg.

### Eitem 5: Mesur Arfaethedig ynghylch Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG

### (Cymru) 2007 - y wybodaeth ddiweddaraf

**Eitem 6: Unrhyw fater arall**
**Eitem 7: Dyddiad y cyfarfod nesaf**